Cyngor Sir Ceredigion

ADRODDIAD I'R: Pwyllgor Iaith

DYDDIAD: 5 Rhagfyr 2022

LLEOLIAD: Siambr y Cyngor, a Hybrid

TEITL: Cyflwyno Polisi'r Gymraeg ar Ddyfarnu Grantiau yn unol â Safon 94

PWRPAS YR ADRODDIAD: Cyflwyno Polisi'r Gymraeg ar Ddyfarnu Grantiau

CEFNDIR:

Cyflwyno Polisi'r Gymraeg ar Ddyfarnu Grantiau yn unol a Safon 94

Yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 mae Comisiynydd y Gymraeg wedi gosod ystod eang o Safonau Iaith; yn cynnwys rhestr fanwl iawn o ofynion sy'n nodi sut y mae'n rhaid i Gyngor Sir Ceredigion ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle ac yn ei ymwneud â'r Cyhoedd. Hynny, er mwyn darparu gwasanaethau o safon yn yr iaith Gymraeg; gan sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae Safon Iaith rhif 94 yn gofyn i'r Cyngor ddatblygu a chyhoeddi Polisi Iaith Gymraeg ar Ddyfarnu Grantiau.

Nod y polisi yw cynorthwyo swyddogion i sicrhau bod ystyriaethau Safonau'r Gymraeg yn elfen integredig o'r broses grantiau ar draws y Cyngor, gan sicrhau bod Swyddogion yn asesu effaith dyfarnu'r grant hwnnw ar y Gymraeg. At hyn, sicrhau bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn ymwybodol o'u dyletswyddau wrth ddod i benderfyniadau ynghylch gosod grantiau. Bydd cymeradwyo'r polisi yn sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â Safon 94.

Wrth ddatblygu'r polisi, cafodd y fersiwn drafft ei rannu gyda Swyddogion sy'n rhan o'r gwaith dyfarnu grantiau, ar gyfer derbyn mewnbwn a'u sylwadau. Unwaith y bydd y Polisi wedi'i gymeradwyo'n derfynol, bydd y Polisi ar gael ar CeriNet a hefyd yn cael ei rhannu gyda'r holl swyddogion sy'n ymwneud â dyfarnu grantiau, er mwyn sicrhau bod y polisi yn cael ei ddilyn a bod y Cyngor yn cydymffurfio â'r Safonau sy'n ymwneud â dyfarnu grantiau. Bydd y broses dyfarnu grantiau yn cael ei fonitro'n rheolaidd i sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio yn unol â'r manylion sydd yn y polisi.

ARGYMHELLIAD:
Aelodau Pwyllgor Iaith i dderbyn y Polisi argymell cyflwyno'r Polisi i'r Cabinet ar gyfer cymeradwyaeth.

Enw Cyswllt:	Carys Lewis Morgan
Swydd:	Swyddog Polisi Iaith
Dyddiad yr Adroddiad:	5/12/2022

Polisi'r Gymraeg ar gyfer Dyfarnu Grantiau

Cyhoeddwyd yn unol â gofynion

Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Awdur:

Cymeradwyo yn Cabinet:

Dyddiad Cyhoeddi:

DRAFT

Mae'r adroddiad hwn ar gael yn Gymraeg a Saesneg**.**
Gallwn ddarparu'r adroddiad hwn mewn fformatau eraill ar gais. Cysylltwch â'r Swyddog Polisi Iaith fel y nodir isod os gwelwch yn dda:

Carys Lewis Morgan
Swyddog Polisi Iaith Gymraeg / Welsh Language Policy Officer

Cyngor Sir Ceredigion County Council
Neuadd Cyngor Ceredigion
Penmorfa
Aberaeron
SA46 0PA

E bost: carys.morgan@ceredigion.gov.uk

DRAFT

Cynnwys

Adran 1: Cyflwyniad a Chyd-destun

Adran2: Y broses dyfarnu grantiau: Sut gellir mewnoli ystyriaethau'r Gymraeg

Adran 3: Sut gall penderfyniadau grant gael effaith ar y Gymraeg

Adran4: Amodau safonol y gallech eu gosod ar gyfer derbyn grant

Atodiad 1**:** Rhestr Wirio Dyfarnu Grantiau

Atodiad 2: Templed ar gyfer ystyried effeithiau

Atodiad 3: Rhesr o grantiau mae'r polisi hwn yn berthnasol iddynt

DRAFT

Adran 1: Cyflwyniad a Chyd-destun

Pwrpas y ddogfen

Cyhoeddir y Polisi hwn yn unol â blaenoriaethau Cyngor Ceredigion a'r gofynion a osodir ar y Cyngor i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a bennwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg, yn unol ag adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Mae'r Polisi hwn wedi ei ddatblygu er mwyn rhoi cymorth i Swyddogion i gydymffurfio a gofynion Safonau'r Gymraeg wrth **gyhoeddi a dyfarnu grantiau** ar ran Cyngor Sir Ceredigion. Mae dyfarnu grantiau â'r potensial i gael effeithiau pellgyrhaeddol ar y Gymraeg, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongychol; mae gan nifer o'r grantiau hyn draweffaith cymdeithasol ac economaidd sydd yn ei dro'n dylanwadu ar y Gymraeg. Mae Safonau'r Gymraeg yn ei gwenud hi'n ofynnol ystyried pa effaith fyddai dyfarnu'r grant yn ei gael ar y:

- cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg yng nghyd-destun y gweithgaredd
- peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn y gweithgaredd

Nod y polisi yma felly yw cynorthwyo swyddogion i sicrhau bod ystyriaethau Safonau'r Gymraeg yn elfen integredig o'r broses grantiau ar draws y Cyngor. At hyn, sicrhau bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn ymwybodol o'u dyletswyddau wrth ddod i benderfyniadau ynghylch gosod grantiau.

Noder: Bydd cadw at y rhestr wirio a ddarperir (Atodiad 1) yn dangos bod Swyddog wedi cydnabod yr angen i ystyried y Gymraeg ac wedi ymateb iddo, a thrwy hynny yn cydymffurfio gyda gofynion Safonau'r Gymraeg.

Cefndir

Cafodd Safonau'r Gymraeg eu gosod ar Gyngor Sir Ceredigion drwy Hysbysiad Cydymffurfio ar 30 Mawrth 2016. O'r dyddiad hwn, mae disgwyl i'r Cyngor fynd i'r afael â gosod threfnweithiau er mwyn cydymffurfio gyda'r Safonau. At hyn mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi adroddiad monitro blynyddol ar wefan y Cyngor, sy'n sy'n darparu gwerthusiad o'r dulliau mae'r Cyngor wedi mynd ati i weithredu gofynion y Safonau, a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r adroddiadau blynyddol yn cael eu craffu gan Gomisiynydd y Gymraeg.

Pwrpas Safonau'r Gymraeg yw:

- Rhoi mwy o eglurder i sefydliadau ar eu dyletswyddau am yr Iaith Gymraeg
- Rhoi mwy o eglurder i siaradwyr Cymraeg am y gwasanaethau y gallant ddisgwyl eu cael yn Gymraeg
- Sicrhau mwy o gysondeb o wasanaethau Cymraeg a gwella eu hansawdd

Beth yn union yw gofynion y safonau o ran dyfarnu grantiau?

Mae Safon 94 yn nodi'r gofyniad i lunio a chyhoeddi polisi dyfarnu grantiau, ac mae 5 Safon Iaith arall sy'n uniongyrchol berthnasol i weithgaredd dyfarnu grantiau, sef Safonau 71-75. Yn y polisi hwn rydym yn anelu at nodi'r dyletswyddau, rhoi eglurder ynghylch eu cynnwys, ynghyd â darparu cyngor ar sut i weithredu'r gofynion.

Y ddyletswydd ar Awdurdodau Lleol wrth ymwneud â'r broses dyfarnu grantiau, rhaid:

- Cyhoeddi'r holl ddeunyddiau yn Gymraeg
- Parchu dewis iaith unigolion trwy gydol y broses ymgeisio am grant
- Datgan yn y gwahoddiad y caniateir i geisiadau am grant gael eu cyflwyno yn Gymraeg

- Wrth ddyfarnu grantiau adnabod unrhyw effeithiau o ran cyfleoedd i ddefnyddio'r Iaith Gymraeg (effeithiau cadarnhaol neu effeithiau negyddol) a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
- Ystyried sut i wneud a gweithredu'r penderfyniad drwy:
    - nodi ffyrdd o hyrwyddo'r Gymraeg, gan gynnwys defnyddio'r Gymraeg
    - lleihau unrhyw effeithiau andwyol ar y Gymraeg e.e. drwy weithredu amodau'r grant lle bo angen hynny.
- Cadw cofnod nifer a chyfanswm y grantiau cymunedol a ddosbarthwyd, ynghyd a chofnodi:
    - Faint o ymgeiswyr sydd wedi cyflwyno eu ceisiadau yn Gymraeg, ac faint sydd wedi gwneud cais i gynnal y cyfweliad am grant yn y Gymraeg, fel rhan o'ch asesiad chi o'r cais.
    - Nifer y mudiadau sydd wedi datblygu eu defnydd o'r gymraeg ymhellach fel rhan o'r amodau i dderbyn grant cymunedol
- Derbyn cyngor gan Swyddog Polisi Iaith y Cyngor os yn ansicr

Geiriad y Safonau yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015:

Rhif y Safon	Geiriad y Safon
	Safonau Llunio Polisi
94	Rhaid ichi lunio a chyhoeddi polisi dyfarnu grantiau (neu, pan fo'n briodol, ddiwygio polisi sydd eisoes yn bodoli) sy'n ei gwneud yn ofynnol ichi ystyried y materion a ganlyn pan fyddwch yn gwneud penderfyniadau ynghylch dyfarnu grant: (a) pa effeithiau, os o gwbl (a pha un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol), y byddai dyfarnu grant yn eu cael ar- (i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg (b) sut y gellid gwneud neu weithredu penderfyniad (er enghraifft, drwy osod amodau grant) fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar – (i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg (c) sut y gellid gwneud neu weithredu penderfyniad (er enghraifft, drwy osod amodau grant) fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol ar: (i) Cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg (ch) a oes angen ichi ofyn i'r ymgeisydd am grant am unrhyw wybodaeth ychwanegol er mwyn eich cynorthwyo i asesu effaith dyfarnu grant ar – (i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau
71	Rhaid i unrhyw ddogfennau yr ydych yn eu cyhoeddi sy'n ymwneud a cheisiadau am grant gael eu cyhoeddi yn Gymraeg, a rhaid i chi beidio â thrin

DRAFT

	fersiwn Gymraeg o'r dogfennau hynny yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg ohonynt.
72	Pan fyddwch yn gwahodd ceisiadau am grant, rhaid i chi ddatgan yn y gwahoddiad y caniateir i geisiadau gael eu cyflwyno yn Gymraeg ac na fydd unrhyw gais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.
72A	Rhaid ichi beidio â thrin ceisiadau am grant a gyflwynir yn Gymraeg yn llai ffafriol na cheisiadau a gyflwynir yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg pethau eraill, mewn perthynas â'r dyddiad cau ar gyfer cael ceisiadau, ac mewn perthynas ag amseriad rhoi gwybod i ymgeiswyr am benderfyniadau).
73	Os byddwch yn cael cais am grant yn Gymraeg, a bod angen cyfweld ag ymgeisydd fel rhan o'ch asesiad o'r cais, rhaid i chi gynnig cynnal y cyfweliad yn Gymraeg ac, os yw'r ymgeisydd yn dymuno hynny, rhaid i chi gynnal y cyfweliad yn Gymraeg (heb gymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd na gwasanaeth cyfieithu olynol).
75	Pan fyddwch yn rhoi gwybod i ymgeisydd beth yw'ch penderfyniad mewn perthynas â chais am grant, rhaid i chi wneud hynny yn Gymraeg os cyflwynwyd y cais yn Gymraeg.

Diffiniad ac enghreifftiau o grantiau

Yn y Cod Ymarfer i Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015, mae Comisiynydd y Gymraeg yn egluro beth yw 'grant'

"Fel arfer, mae grant yn drosglwyddiad parhaol o arian i berson, nad oes rhaid ei dalu'n ôl neu ei ddychwelyd. Mae'r term yn cynnwys unrhyw gymorth ariannol y mae corff yn ei roi i berson at brosiect neu ddiben penodol. Gan amlaf, dim ond rhan o gyfanswm costau y mae grant yn talu amdano. Caiff grantiau fel arfer eu defnyddio yn unol â thelerau ac amodau penodol. Gall y term gynnwys cymorth ariannol neu fudd-dal ond nid yw'n cynnwys swm o arian sy'n cael ei roi i berson drwy broses gaffael, er enghraifft gwasanaethau sy'n cael eu comisiynu."

Nid yw maint y swm o arian yn berthnasol – mae'r safon yn berthnasol i grantiau bach a mawr. Mae enghreifftiau o grantiau'n cynnwys cymorth ariannol i:

- drefnu digwyddiad bach neu fawr, er enghraifft gŵyl, cystadleuaeth, cwrs neu gynhadledd
- rhedeg prosiect
- cynhyrchu neu gyhoeddi rhywbeth, er enghraifft record, llyfr, taflen neu waith celf, arwyddion
- adeiladu, addasu, rhentu neu brynu eiddo neu adnodd arall
- cyflogi staff
- cynnig gwasanaeth
- cyfrannu at gostau byw person penodol, er enghraifft grant cynhaliaeth neu ysgoloriaeth i fyfyrwyr
- rhedeg sefydliad, busnes neu fudiad am gyfnod penodol o amser

Bydd yr egwyddorion yn berthnasol beth bynnag yw maint y grant. Felly, bydd angen proses er mwyn adnabod pa ofynion ieithyddol fydd eu hangen ar gyfer y gweithgaredd perthnasol, neu er mwyn gosod amodau ar gyfer dyfarnu'r grant. Er enghraifft: gallai grant bach gael ei ddyfarnu ar gyfer trefnu digwyddiad bach cymunedol - mewn achos o'r fath, byddai'n briodol gosod amodau y dylai arwyddion a deunydd cyhoeddusrwydd ar gyfer y digwyddiad fod yn ddwyieithog. Fel yn achos y grantiau mwy, mae'n bwysig egluro i'r rhai hynny sy'n ymgeisio am grantiau beth a ddisgwylir ohonynt fel sefydliadau mewn perthynas â'r defnydd o'r Gymraeg. Ble mae hynny'n briodol, dylid rhoi cymorth i'r rhai sy'n derbyn grantiau er mwyn iddynt allu cydymffurfio â'r egwyddorion a nodir yn y Polisi hwn.

Pa bryd mae'r Polisi hwn yn berthnasol?

- Bydd y polisi hwn yn berthnasol pan fydd y Cyngor yn dyfarnu grantiau, lle mae'r Cyngor ei hun yn gyfrifol am ariannu.

- Bydd y polisi yma'n berthnasol os yw'r Cyngor yn dyfarnu grantiau ar ran corff arall, Llywodraeth Cymru neu unrhyw gorff arall sy'n dod o fewn cwmpas Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011); mae'n anghenrheidiol bod telerau ac amodau penodol y grant yn cynnwys ystyriaethau sy'n ymwneud â'r Gymraeg.

- Ni fydd y polisi yma'n berthnasol os yw'r Cyngor yn dyfarnu grantiau ar ran sefydliadau sydd ddim yn dod o fewn cwmpas Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

- Ni fydd y polisi yn berthnasol os nad y Cyngor sy'n gyfrifol am osod y polisi ac nid oes modd newid ei gyfeiriad na'r telerau ac amodau ar gyfer y cronfeydd allanol hynny. Fodd bynnag yn y sefyllfa hon mae'n rhaid cadw at yr holl Safonau Iaith perthnasol eraill, sef cyhoeddi fersiynau Cymraeg o'r canllawiau a'r dogfennau ymgynghori, ffurflenni cais, deunydd cyhoeddusrwydd ac ati.

Adran 2: Y Broses dyfarnu grantiau: Sut gellir mewnoli ystyriaethau'r Gymraeg

Hysbysebu'r grant

Rhaid i holl ddeunyddiau gwybodaeth ynghylch y grant fod ar gael yn Gymraeg, a bydd yn cael ei gyhoeddi ar yr un pryd â'r fersiwn Saesneg, gan gynnwys unrhyw ddogfennau canllaw, Fframweithiau asesu a thelerau ac amodau. Bydd y deunydd gwybodaeth yn nodi y bydd y Cyngor yn ystyried yr effeithiau ar y Gymraeg wrth ddyfarnu'r grant.

- Dylid gosod yr ymwadiad canlynol wrth hysbysebu'r grant:

  Caniateir cyflwyno ffurflen gais yn Gymraeg ac ni fydd unrhyw gais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.
  An application form may be submitted in Welsh; any application submitted in Welsh will not be treated less favourably than an application submitted in English**.**

- Os bydd angen cyhoeddi deunyddiau gwybodaeth yn Saesneg ac yn Gymraeg ar wahân, dylid gosod y frawddeg ganlynol ar dudalen flaen y ddogfen/nau Saesneg:

  Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Gymraeg.
  This document is also available in Welsh.

Gwybodaeth i gefnogi penderfyniad dyfarnu grant

Mae'r safon yn ei gwneud yn ofynnol i ystyried pa wybodaeth ychwanegol sydd ei hangen er mwyn ystyried yr effeithiau ar y Gymraeg. Mae modd gofyn i ymgeiswyr am y wybodaeth hon ar unrhyw bwynt yn y broses o ystyried y penderfyniad. Er enghraifft, gallwch:

- ofyn cwestiynau safonol ynghylch yr effeithiau ar y Gymraeg fel rhan o'r ffurflen gais
- anfon cais am wybodaeth ychwanegol at ymgeiswyr yn dilyn derbyn ceisiadau
- gofyn cwestiynau am yr effeithiau ar y Gymraeg mewn unrhyw gyfweliadau rydych yn eu cynnal.

Isod mae enghreifftiau o'r cwestiynau y gallwch eu gofyn i ymgeiswyr am grantiau.

Gwybodaeth i ofyn amdani i gefnogi'r penderfyniad

- Ydych chi wedi ystyried beth fydd effeithiau'r gweithgaredd ar y Gymraeg? Beth fydd yr effeithiau positif a/neu negyddol?
- Sut fyddwch chi'n mynd ati i gynyddu effeithiau positif ar y Gymraeg, a lleihau'r effeithiau negyddol?
- Oes gennych chi ddigon o staff neu wirfoddolwyr i alluogi pobl i ddefnyddio'r Gymraeg?
- Ydych chi wedi trefnu bod unrhyw ddeunyddiau ar gael yn Gymraeg?
- Ydych chi wedi cynnwys unrhyw gostau ychwanegol ar gyfer darpariaeth Gymraeg yn eich cyllidebau e.e. costau cyfieithu?
- Sut fyddwch chi'n sicrhau ansawdd eich darpariaeth Gymraeg?
- Pa brofiad blaenorol sydd gennych o gyflawni gweithgaredd sy'n cael effeithiau positif, a ddim yn cael effeithiau negyddol, ar y Gymraeg?
- Oes gennych chi unrhyw ddata sy'n dangos sut mae'ch gweithgareddau blaenorol wedi effeithio ar y Gymraeg?

Asesu ceisiadau am y grant

Er mwyn ystyried yr effaith/effeithiau ar y Gymraeg fe'ch cynghorir chi i ddefnyddio'r Templed sydd ar gael yn Atodiad 2, neu gallwch ychwanegu'r cwestiynau am y Gymraeg i'r brif ffurflen sydd gyda chi yn barod ar gyfer asesu'r ceisiadau; bydd angen lle i nodi:

- beth fydd effeithiau dyfarnu'r grant ar y Gymraeg, ac a yw'r rheiny'n bositif ynteu'n negyddol?
- sut y gellir gwneud neu weithredu'r penderfyniad er mwyn cynyddu effeithiau positif a lleihau effeithiau andwyol?
- a oes angen gwybodaeth ychwanegol gan yr ymgeiswyr er mwyn ystyried yr effeithiau ar y Gymraeg?

Dyfarnu'r grant

Dylid ystyried yr effeithiau ar y Gymraeg wrth wneud y penderfyniad terfynol, e.e. fel un o'r meini prawf ar gyfer y grant, neu faes mewn system sgorio.
Rhaid i'r deunyddiau ar gyfer cofnodi'r penderfyniad nodi:

- pa ystyriaeth a roddwyd i'r Gymraeg ?
- sut mae hyn wedi effeithio ar y penderfyniad?

Dylai'r Telerau ac amodau ar gyfer y grant nodi'n glir beth yw'r disgwyliadau o ran y Gymraeg – gweler Adran 4: Amodau safonol y gallech eu gosod ar gyfer derbyn grant

Gwneud a gweithredu penderfyniadau grant

Er mwyn sicrhau bod y penderfyniad yn cynyddu'r effeithiau positif ar y Gymraeg, mae'n bosib cyflawni'r nod mewn 2 ddull (gellir gwneud y ddau – nid yw'n gorfod bod yn un neu'r llall).

- **gwneud y penderfyniad** – dyfarnu grantiau i geisiadau sy'n ymddangos yn fwy tebygol o gynyddu'r effeithiau positif ar y Gymraeg, a lleihau'r effeithiau negyddol
- **gweithredu'r penderfyniad** – cymryd camau i sicrhau bod derbynwyr grantiau'n gweithredu mewn ffyrdd penodol er mwyn cynyddu'r effeithiau positif a lleihau'r effeithiau negyddol.

Gwneud y penderfyniad

Nid oes disgwyl mai'r effeithiau ar y Gymraeg fydd y prif, neu'r unig, ffactor a ystyrir wrth benderfynu pwy fydd yn derbyn pob grant. Bydd nifer o feini prawf er mwyn mesur ceisiadau yn eu herbyn, a'r rheiny'n ymwneud â materion fel i ba raddau mae'r cais yn cyd-fynd ac amcanion y grant, ac i ba raddau mae'r cais yn rhoi sicrwydd y bydd yr arian yn cael ei drin yn briodol.

Dylid ychwanegu'r effeithiau ar y Gymraeg fel un o'r meini prawf rydych yn eu defnyddio i benderfynu ar ddyfarnu'r grant. Os ydych yn defnyddio system sgorio ar gyfer penderfynu pa geisiadau i roi grant iddynt, dylid ychwanegu'r effeithiau ar y Gymraeg fel un maes yn y system sgorio honno, gan roi sgôr i geisiadau ar sail eich ystyriaeth o'u heffeithiau ar y Gymraeg. Fodd bynnag, mater i'r Swyddog dyfarnu grantiau fydd penderfynu pa mor drwm i bwysoli'r effeithiau ar y Gymraeg fel rhan o'r system sgorio. Mae'n bwysig cadw cofnod priodol o sut mae ystyried yr effeithiau ar y Gymraeg wedi dylanwadu ar y penderfyniad terfynol o ran dyfarnu'r grant.

Gweithredu'r penderfyniad

Mae modd dyfarnu'r grant yn amodol ar gymryd camau penodol i sicrhau cynyddu'r effeithiau positif ar y Gymraeg, a lleihau'r effeithiau negyddol. Bydd angen sicrhau bod yr amodau hyn, a chanlyniadau methu â chadw atynt, yn hollol glir i dderbynwyr y grant. Dylid rhestru'r gofynion mewn telerau ac amodau, neu lythyr dyfarnu, ar gyfer y grant. (gweler Adran 4).

Noder: Un dull effeithiol o sicrhau bod busnesau neu elusennau yn datblygu eu defnydd o'r Gymraeg yw ei gwneud yn ofynnol iddynt ddatblygu cynllun Cynnig Cymraeg (comisiynyddygymraeg.cymru), syn cael ei hwyluso gan Gomisiynydd y Gymraeg. Mae'r system yn creu cynllun o lefel darpariaeth Gymraeg ar sail holiadur, ac yn rhoi cyfle i fusnesau ac elusennau osod targedau, gyda chefnogaeth swyddogion Hybu a Hwyluso Comisiynydd Y Gymraeg, i gynyddu eu darpariaeth Gymraeg.

Monitro defnydd y grant

Os oes gofynion i **adrodd nôl** ar y defnydd o'r grant, dylid cynnwys cwestiynau ynghylch:

- pa gamau a gymerodd y derbynnydd grant i gynyddu effeithiau positif a lleihau effeithiau negyddol ar y Gymraeg
- pa effeithiau positif a negyddol a gafodd y grant ar y Gymraeg

DRAFT

Adran 3: Sut gall penderfyniadau grant gael effaith ar y Gymraeg

Wrth wneud penderfyniad dyfarnu grant, mae'r Safon laith yn nodi bod rhaid i'r Cyngor ystyried effeithiau ar y Gymraeg. Mae'r templed yn Atodiad 2 yn cynnig dull o gofnodi hyn.

Mae angen adnabod dau fath o effeithiau ar y Gymraeg, sef effeithiau ar ddwy brif amcan y safonau:

- sicrhau cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg
- peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Yn y Cod Ymarfer i Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015, mae Comisiynydd y Gymraeg yn egluro 'peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg' fel a ganlyn:

"*Mae ystyr ymarferol 'yn amrywio o sefyllfa i sefyllfa. Ond yn gyffredinol, mae'n golygu peidio â rhoi neb dan anfantais os ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, a sicrhau bod y Gymraeg o leiaf yr un mor amlwg, safonol a hygyrch â'r Saesneg bob amser."*

Ar ol adnabod yr effeithiau posib, bydd angen adnabod a ydynt yn bositif ynteu'n andwyol:

- **effeithiau positif** yw rhai sy'n golygu bod cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg, bod y Gymraeg yn fwy amlwg, neu nad oes unrhyw rwystrau ychwanegol i ddefnyddio'r Gymraeg, gyda deilliannau sydd o leiaf cystal
- **effeithiau negyddol** yw rhai sy'n golygu bod llai o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, bod y Gymraeg yn llai amlwg, neu fod pobl sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn wynebu mwy o rwystrau neu ddeilliannau llai ffafriol na phobl sy'n defnyddio'r Saesneg.

Ffactorau i'w hystyried wrth adnabod effeithiau

Dyma rai cwestiynau y gallwch eu gofyn er mwyn adnabod effeithiau posib penderfyniadau dyfarnu grant ar y Gymraeg. Yn naturiol bydd natur y cwestiynau yn ddibynnol ar natur y grant a ddyfernir.

Effeithiau uniongyrchol:

- A fydd modd defnyddio'r Gymraeg mewn elfennau cyhoeddus o'r gweithgaredd, ac wrth gyfathrebu â'r trefnwyr?
- A fydd y Gymraeg yn cael ei defnyddio wrth hybu a hysbysebu'r gweithgaredd?
- A fydd deunyddiau sy'n cael eu cynhyrchu yn sgil y gweithgaredd ar gael yn Gymraeg?
- A fydd y Gymraeg o leiaf yr un mor amlwg â'r Saesneg o ran deunyddiau, arwyddion, logos, cyhoeddiadau sain ac ati sy'n gysylltiedig â'r gweithgaredd?
- A fydd y gweithgaredd yn cael effaith ar ddealltwriaeth ac ymwybyddiaeth pobl o faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg?

Effeithiau anuniongyrchol:

- A fydd y gweithgaredd yn cael effaith ar gynaladwyedd cymunedau lle mae'n bwysig gweld twf neu gysondeb o ran nifer siaradwyr a defnydd o'r Gymraeg, er enghraifft yn sgil effaith ar yr economi, cynllunio, addysg neu gyfleoedd cymdeithasol?
- A fydd y gweithgaredd yn cael effaith ar y nifer o blant sy'n derbyn addysg Gymraeg?
- A fydd y gweithgaredd yn arwain at greu cyfleoedd gwaith i siaradwyr Cymraeg?
- A fydd y gweithgaredd yn arwain at alluogi pobl i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith?
- A fydd y gweithgaredd yn arwain at alluogi ac ysgogi pobl i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymunedol neu yn y teulu?

DRAFT

Adran 4: Amodau safonol y gallech eu gosod ar gyfer derbyn grant

Dyma rai enghreifftiau o amodau y gellid eu gosod ar dderbynwyr grant, yn dibynnu ar sefyllfa'r grant unigol:

- Cynnig gwasanaethau penodol yn Gymraeg, e.e. croesawu pobl, galluogi defnyddio'r Gymraeg ar y ffôn, cyhoeddiadau sain, gohebu yn Gymraeg, cynnig cwrs yn Gymraeg
- Cyhoeddi deunyddiau yn Gymraeg, e.e. gwefan, dogfennau, arwyddion, neu gynnyrch creadigol y prosiect
- Targedu siaradwyr Cymraeg wrth hybu a hysbysebu gweithgaredd
- Sicrhau bod gweithgaredd yn cael ei gynnal mewn lleoliadau daearyddol sy'n cefnogi defnyddio'r Gymraeg
- Cynnal gweithgaredd yn Gymraeg / dwyieithog
- Datblygu a chadw at y cynllun Cynnig Cymraeg [busnesau ac elusennau]. Cynllun sy'n cael ei gynnig drwy Gomisiynydd y Gymraeg.
- Cydymffurfio â safonau neu gynlluniau iaith Gymraeg [sefydliadau sydd dan ddyletswydd perthnasol]
- Sicrhau bod capasiti adnoddau dynol neu gyllideb addas ar gael i alluogi darpariaeth Gymraeg
- Darparu data neu dystiolaeth benodol ynghylch effeithiau'r grant ar y Gymraeg (gweler isod)

Adrodd ar effeithiau

Gellir gofyn i dderbynwyr grant adrodd ar sut y maent wedi defnyddio'r grant neu sut maent wedi cadw at delerau ac amodau'r grant. Er enghraifft, mae'n bosib creu holiadur ar gyfer derbynwyr grant, sy'n ei gwneud yn ofynnol adrodd yn ôl ar y defnydd o'r arian. Gellir gofyn am wybodaeth ynghylch yr effeithiau ar y Gymraeg fel rhan o hyn. Dyma enghreifftiau o ddata neu dystiolaeth y gellid gofyn amdani.

Data y gallech ofyn amdano wrth fonitro grant

- Nifer y deunyddiau a gynhyrchwyd yn Gymraeg / copïau o'r deunyddiau
- Nifer y staff neu wirfoddolwyr a allai gynnig gwasanaeth Cymraeg
- Nifer y siaradwyr Cymraeg wnaeth gymryd rhan mewn gweithgaredd
- Effaith economaidd y gweithgaredd mewn ardal benodol
- Nifer swyddi a grëwyd o ganlyniad i'r grant
- Ardaloedd lle cynhaliwyd gweithgareddau
- Adborth gan ddefnyddwyr ynghylch defnyddio'r Gymraeg

Cadw Cofnod

Cadw cofnod nifer a chyfanswm y grantiau a ddosbarthwyd, ynghyd â chofnodi:

- Nifer a % o ymgeiswyr sydd wedi cyflwyno eu ceisiadau yn Gymraeg, ac faint sydd wedi gwneud cais i gynnal y cyfweliad am grant yn y Gymraeg, fel rhan o'ch asesiad chi o'r cais.
- Nifer y mudiadau sydd wedi datblygu eu defnydd o'r Gymraeg ymhellach fel rhan o'r amodau i dderbyn grant cymunedol

Bydd yn ofynnol adrodd ar y data hwn fel rhan o Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg.

DRAFT

Atodiad 1: Rhestr Wirio Dyfarnu Grantiau

Os ydych chi'n rheoli proses rhoi grantiau ar ran Cyngor Sir Ceredigion, bydd cadw at y rhestr wirio hon yn sicrhau eich bod yn cydymffurfio â gofynion Safonau'r Gymraeg.
Bydd sicrhau eich bod yn cydymffurfio yn lleihau'r posibilrwydd o unrhyw gŵyn, apeliadau neu ymchwiliadau gan Gomisinydd y Gymraeg a'r amrywiol gostau sy'n gysylltiedig â hynny.

Cam Gweithredu:	Ar waith?
Mae'r holl wybodaeth am y grant ar gael yn Gymraeg a bydd yn cael ei gyhoeddi ar yr un pryd â'r fersiwn Saesneg, gan gynnwys unrhyw ddogfennau canllaw, fframweithiau asesu a thelerau ac amodau.	
Mae'r dogfennau hysbysebu'r grant sy'n gwahodd ymgeiswyr i geisio am y grant yn cynnwys y cynnig rhagweithiol isod: **Caniateir cyflwyno ffurflen gais yn Gymraeg ac ni fydd unrhyw gais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.** An application form may be submitted in Welsh; any application submitted in Welsh will not be treated less favourably than an application submitted in English.	
Os bydd angen cyhoeddi deunyddiau gwybodaeth yn Saesneg ac yn Gymraeg ar wahân ee ffurflen gais: dylid gosod y frawddeg ganlynol ar dudalen flaen y ddogfen/nau Saesneg: **Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Gymraeg.** This document is also available in Welsh.	
Lle mae cyfeiriad e-bost neu rif ffôn yn cael ei ddefnyddio i ofyn i bobl gysylltu, mae'r frawddeg ganlynol wedi'i chynnwys yn y poster, e-bost neu hysbysiad cyhoeddus. **Mae croeso i chi gyfathrebu â ni yn y Gymraeg.** You are welcome to communicate with us in Welsh.	
Mae'r manylion ynghylch gwahoddiad i geisio am y grant yn cynnwys cwestiynau er mwyn caniatáu i'r ymgeisydd ystyried effaith y prosiect ar y Gymraeg. Enghraifft: **Rhowch wybod i ni:** • pa effeithiau fydd y gweithgaredd yn ei gael ar y Gymraeg, ac a yw'r rheiny'n bositif ynteu'n negyddol? • pa gamau bydd yr ymgeisydd yn eu cymryd i gynyddu'r effeithiau positif a lleihau unrhyw effeithiau negyddol?	
Wrth asesu ceisiadau am y grant, mae'n ofynnol ystyried:	

DRAFT

• beth fydd effeithiau dyfarnu'r grant ar y Gymraeg, ac a yw'r rheiny'n bositif ynteu'n negyddol? • sut y gellir gwneud neu weithredu'r penderfyniad er mwyn cynyddu effeithiau positif a lleihau effeithiau andwyol • a oes angen gwybodaeth ychwanegol gan yr ymgeiswyr er mwyn ystyried yr effeithiau ar y Gymraeg? Cynghorir chi i ddefnyddio'r templed asesu effaith sydd i'w weld yn Atodiad 2	
Os byddwch yn trefnu cyfarfod i ofyn cwestiynau pellach mewn perthynas â'r cais, rydych wedi cynnwys y cynnig rhagweithiol isod. (Yn cynnwys cyfarfodydd hybrid a rhithwir.) **Croeso i chi ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod dim ond i chi roi gwybod i ni erbyn xx/xx/xx.** You are welcome to use Welsh at the meeting, just let us know by xx/xx/xx should you wish to do so.	
Pan fyddwch yn rhoi gwybod i ymgeisydd beth yw eich penderfyniad mewn perthynas â chais am grant, rhaid i chi wneud hynny yn Gymraeg os cyflwynwyd y cais yn Gymraeg.	
Rydych chi wedi gosod amod grant i sicrhau effeithiau mwy cadarnhaol ar y Gymraeg: gweler enghreifftiau yn Adran 4:Amodau safonol y gallech eu gosod ar gyfer derbyn grant, Polisi Dyfarnu Grantiau Cyngor Sir Ceredigion	
Rhaid parchu dewis iaith yr ymgeisydd yn ystod yr holl broses.	
Cadw cofnod nifer a chyfanswm y grantiau a ddosbarthwyd, ynghyd â chofnodi: o Nifer a % o ymgeiswyr sydd wedi cyflwyno eu ceisiadau yn Gymraeg, ac faint sydd wedi gwneud cais i gynnal y cyfweliad am grant yn y Gymraeg, fel rhan o'ch asesiad chi o'r cais. o Nifer y mudiadau sydd wedi datblygu eu defnydd o'r Ggymraeg ymhellach fel rhan o'r amodau i dderbyn grant cymunedol	

DRAFT

Atodiad 2: Templed ar gyfer ystyried effeithiau

1	Enw'r grant:		
	Enw'r ymgeisydd:		
Rhan 1: Adnabod effeithiau ar y Gymraeg			
		Effeithiau positif	Effeithiau negyddol
3	Beth fyddai effeithiau dyfarnu'r grant ar y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg		
4	Beth fyddai effeithiau dyfarnu'r grant ar drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg		
Rhan 2: Adnabod gwybodaeth ychwanegol			
5	A oes angen gwybodaeth ychwanegol i helpu gyda'r penderfyniad?		
Rhan 3: Gwneud a gweithredu'r penderfyniad			
		Gwneud (e.e. rhoi grant ai peidio/ swm i'w roi)	Gweithredu (e.e. gosod amodau)
6	Sut gellid addasu'r penderfyniad i gynyddu effeithiau positif ar y Gymraeg?		
7	Sut gellid addasu'r penderfyniad i leihau effeithiau negyddol ar y Gymraeg?		

DRAFT

Rhestr o rhai o'r grantiau mae'r Polisi Hwn yn berthnasol iddynt

Teitl Y Grant	**Gwasanaeth**
Grant Cyfalaf Datblygu Busnes	Gwasanaeth Economi ac Adfywio
Grantiau Cynnal y Cardi (Leader)	Gwasanaeth Economi ac Adfywio
Trawsnewid Trefi	Gwasanaeth Economi ac Adfywio
Cronfa Adnewyddu Cymunedol	Gwasanaeth Economi ac Adfywio
Rhaglen Arfor	Gwasanaeth Economi ac Adfywio
Grant Cymunedol y Cyngor: Prosiectau Cyfalaf.	Gwasanaeth Cyllid a Chaffael
Grant Cymunedol Y Cyngor: Prosiectau Refeniw	Gwasanaeth Cyllid a Chaffael
Grantiau Chwaraeon 'Haf o Hwyl', 'Gaeaf o Les'	Gwasanaeth Porth Cymorth Cynnar (Canolfannau Lles)
Grantiau Celfyddodol: Theatr y Mwldan, Canolfan y Celfyddydau, Arad Goch	Gwasanaeth Addysg a Diwylliant
Family Centre Network Homestart Cynllun Cyfeirio (Mudiad Meithrin) DASH Adran Iaith a Llefarydd (Hywel Dda)	Gwasanaeth Porth Cymorth Cynnar
Canolfannau Teuluoedd	Gwasanaeth Porth Cymorth Cynnar
Gofalwyr Ceredigion Carers	Gwasanaeth Porth Cymorth Cynnar
6 CLG blynyddol trwy cyllid craidd a grant ar gyfer datblygu defnydd y Gymraeg: 1. Urdd Ceredigion 2. CFfI Ceredigion 3. Scouts Ceredigion 4. Girlguiding Ceredigion 5. Ieuenctid Tysul 6. RAY Ceredigion	Gwasanaeth Porth Cymorth Cynnar

DRAFT

Grantiau Polisi • Eisteddfodau lleol • Sioeau Amaethyddol neu/a Garddwriaethol • Unigolion - grant a roddir am y tro cyntaf y bydd unigolyn yn cynrychioli Cymru neu Brydain Fawr mewn gweithgaredd penodol (bydd unigolion sy'n cynrychioli Cymru'n cael gwneud cais hyd at 3 mis ar ôl eu gweithgaredd) • Sioeau Aberystwyth, Aberteifi, Llanbedr Pont Steffan, Llandysul a Gŵyl Merlod a Chobiau Cymreig Aberaeron • Gŵyl Pysgod Bae Ceredigion, Gŵyl Fwyd Llanbedr Pont Steffan a Gŵyl Afon a Bwyd Aberteifi • Papurau Bro • Gŵyl Fawr Aberteifi, Gŵyl y Banc Awst Llambed, Eisteddfodau Teulu James Pantyfedwen	Gwasanaeth Cyllid a Chaffael

DRAFT